OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1287 (Cy.75)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *29 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd wedi'i freinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n arferadwy yng Nghymru(**2**):

**Enw, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2001/2002) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Cyfradd y disgownt**

**2.** Saith y cant fydd cyfradd ganrannol y disgownt a ragnodir ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 at ddibenion adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D.Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

29 Mawrth 2001

(**1**) 1989 p. 42.
(**2**) Gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gwneud darpariaeth ar gyfer arian cyfalaf awdurdodau lleol.

Mae adran 49(2) o'r Ddeddf honno'n nodi fformwla ar gyfer penderfynu, at ddibenion Rhan IV, werth y gydnabyddiaeth sydd i'w rhoi gan awdurdod o dan drefniant credyd mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y daw'r trefniant i fodolaeth.

Un o'r elfennau sy'n ffurfio'r fformwla yw cyfradd ganrannol y disgownt a ragnodir ar gyfer blwyddyn ariannol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2001 mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi cyfradd ganrannol o saith y cant o ddisgownt sy'n 0.5 y cant yn llai na chyfradd y disgownt a ragnodwyd ar gyfer 2000/2001.